# YMGYRCH CYMRU

CYLCHLYTHYR AELODAU CND CYMRU · Rhifyn 1 Rhagfyr '86 - Ionawr '87 (Copi ychwanegol 15c)


# CND CYMRU ~ Taith Feicio

Bydd Cymru Ddi Niwcliar yn bump oed ar Chwefror 24 y flwyddyn nesaf. Bydd CND Cymru'n dathlu'r amgylchiad am bythefnos, gyda grwpiau ac unigolion trwy Gymru'n ymuno i gyhoeddi'r penblwydd, ac i godi arian i CND Cymru, 'War on Want' a Chymorth Cristnogol.

Daeth Gymru Ddi-Niwlciar yn thema obeithiol, gadarnhaol ers inni sylweddoli gyntaf bod y syniad yn bosibl, ac yna weld ei gwireddu yn Neuadd Sir Clwyd yn Chwefror 1982. Mae wedi bod yn ysbrydoliaeth i ymgyrchwyr wrth niwcliar trwy'r byd i gyd. Ond daeth yr wyth sir a'r dau ar hugain dosbarth a wnaeth y datganiad dan bwysau o du'r llywodraeth, ac mae Fforwm Cymru o'r Awdurdodau Ddi Niwcliar yn cynllunio ateb. Mae gan CND Cymru rol arbennig i chwarae os rydym am ddilyn siampl Seland Newydd a gwneud Cymru Ddi Niwcliar yn realiti; rhaid cael cefnogaeth gweithredol cymdeithasau, pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd; ond i wneud hynny, rhaid i ni gael arian.

Asgwrn Cefn Penwythnos godi arian CND Cymru yw'r daith feicio 'Wheels Around Wales' yn dechrau ym Mreudeth, Dyfed, safle Llynges U.D.A. . ar Chwefror 13. Wedi protest symbolaidd wrth y safle fe ymuna nifer o enwogion a Morgan Parry a Martin Ashby (ar eu beiciau) i roi cychwyn da i'w taith o 600 milltir. Bymtheg diwrnod yn ddiweddarach fe ddychwela'r ddau i Dy Dewi i ymuno a rali CND Cristnogol ar noswyl Gwyl Ddewi. Dengys y map ar y dde y dyddiadau a'r mannau aros dros nos, lle mae grwpiau lleol yn brysyr yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus, perfformiadau a digwyddiadau eraill ar gyfer y bythefnos gyda dwy nod - i hyrwyddo Cymru Ddi Niwcliar ac i gyfrannu i'r ymgyrch godi arian fwyaf erioid gan y Mudiad Heddwch yng Nghymru. Bydd Gwyl ddiwrnod yn yr Wyddgrug ar Chwefror 21 pan fydd E. P. Thompson yn siarad. Fe fydd hefyd yn yr un modd diwrnod gwyl ar Chwefror 25 yn Caerdydd a Ty Ddewi ar y diwrnod olaf.

## Y Ffordd




Fe derbyniwch gopi o Ymgyrch Cymru a fydd yn cynnwys newyddion a sylwadau CND Cymru, bob dau fis. Gwnewch y cylchlythyr mor diddorol a defnyddiol a phosib wrth yrru cyfraniad i:-


Grwp Golygyddol - Plas Bodhyfryd, Waunfawr, Gwynedd neu cysylltwch a Rhoda Jones, Ty Isaf, Ffestiniog, Gwynedd
Ffoniwch - (076676) 2739 am fanylion pellach neu cyfraniad.

# Neges i'r Aelodau

NEGES I'R AELODAU

Croeso cynnes i 'Ymgyrch Cymru' ar ei newydd wedd ac mae angen eich sylwadau ac adroddiadau am weithgareddau yn eich ardaloedd ei fod yn cael ei ddosbarthu i bob aelod rwan.

Croeso i aelodau newydd. Llongyfarchiadau i Sue Pitman a Dafydd El - yr aelodau cyntaf o CND Cymru i gael eu hethol o'r gynhadledd ar gyngor Prydeinig CND.

Dymuniadau da i Martin Ashby a Morgan Parry wrth iddynt baratoi ar gyfer eu taith ar feiciau trwy Gymru. Byddant yn cychwyn o Freudeth ar y 13eg o Chwefror ac fe drefnir cyfarfodydd a chynhelir gweithgareddau ar hyd y ffordd.

Cofiwn y Nadolig hwn am y rhai hynny sy'n byw a marw gan wynebu tlodi a newyn. Mae Cymorth Cristnogol a 'War on Want' wedi ymuno gyda ni i drefnu y daith feicio. Pwrpas y siwrne yma yw atgoffa pawb ohonom am beryglon arfau niwcliar a'r cysylltiad rhwng tlodi'r trydydd byd a'r gwariant enfawr ar 'Cruise' a 'Trident'. Mae Ymgyrch Cymru'n llwyddo'n bendifaddau - 48% o'r boblogaeth yn cefnogi ein syniadau ond mae angen mwy o aelodau. Gwnewch gymwynas y Nadolig yma drwy lenwi ffurflen aelodaeth dros eich ffrindiau.

Mae'n bur debyg y bydd 1987 yn flwyddyn etholiad a rhaid i ni gynyddu ein gweithgareddau. Rhaid i ni ethol llywodraeth diniwcliar. Mae angen i ni ymroi o'r newydd yn 1987 i Heddwch a CND - yng ngeiriau Mr. Tebbit -

"AR DY FEIC'

## MASNACHU

**Annwyl Aelod CND Cymru,**

**Croeso i Fasnach CND Cymru Dwi'n gobeithio eich bod wedi derbyn neu wedi cael golwg ar y catalog a ymddangosodd yn rhifyn Hydref a Tachwedd o Ymgyrch Cymru. Os nag ydych dydi hi ddim rhy hwyr i archebu eich stoc Nadolig.**

**Mae bosib gyflawni eich archebion trwy CND os fydd hi rhy agos i'r Nadolig i bostio'r nwyddau. Sylwch hefyd bydd hi'n bosib i defnyddio'r catalog trwy gydol hanner cyntaf 1987. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.**

**Martin Ashby,**
**Yr Hen Orsaf, Machynlleth,**
**Powys - Ffôn (0654) 3109**

# RHYBUDD SIZEWELL CWNC

Bydd adroddiad Layfield yn caniatau codi ADB yn Sizewell, gan roi cychwyn ar raglen o rhwng pedwar a chwech ADB ym Mrhydain. Dyma'r farn gyffredin yn Fleet Street beth bynnag, a byddai hynny'n dilyn yn naturiol brofiadau ymholiadau blaenorol ar ynni niwcliar. Dim ond un o'r un ar ddeg ymholiad blaenorol a fethodd cynnau golau gwyrdd i ddatblygiad niwcliar a dim ond argymhelliad i beidio mynd ymlaen y pryd hwnnw oedd yr eithriad hwnnw yng Nghei Connah.

Diwrnod cyn i ymholiad Sizewell ddechrau, dywedodd Nigel Lawson, a oedd ar y pryd yn Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni, nad ei helpu ef i ddod i benderfyniad ar y ADB oedd diben yr ymholiad, ond yn hytrach darbwyllo'r cyhoedd bod angen yr ADB a'i fod yn ddiogel.

Methodd ymholiad Sizewell B ddarbwyllo cyhoedd amheus a phryderus. Mae Chernobyl wedi dangos i fwyafrif pobl Prydain na ddylid ymestyn ynni niwcliar ac y dylid dileu'r gorsafoedd sy'n bod yn raddol. Dadlennodd pol Gallup a gyhoeddwyd ym mis Medi fod 56% o'r atebwyr o blaid dileu ynni niwcliar yn raddol. Dangosodd dadansoddiad rhanbarthol Gallup fod 88% o atebwyr yng 'Nghymru a'r Canolbarth' o blaid dileu graddol.

Cynnwys rhestr fer y mannau ar gyfer ADB ar ôl Sizewell B a Hinkley C (sydd yn ymosoddiad cadarn 'ill dau) yw Druridge Bay (Northumberland), Winfrith (Dorset), Dungeness (Caint), Trawsfynydd a Wylfa. Mae'r Llywodraeth bresennol am wthio gorsafoedd pwer niwcliar i laer ein gyddfau os ydym yn fodlon neu beidio. Mae'n bosibl na fydd dadl seneddol hyd yn oed ar adroddiad Layfield.

Ysgrifennwch at Peter Walker, Ysgrifennydd Gwladol Dros Ynni, d/o Ty'r Cyffredin, Llundain SW1, i fynnu:

(a) bod digon o amser i astudio adroddiad Layfield, i'w ddilyn gan -

(b) ddadl seneddol lawn ac agored gyda phleidlas rydd.

Ysgrifennwch at eich A.S. i fynegi eich barn a thrafodwch weithredoedd y gallem eu defnyddio.

CWNC, P.O. Box 1, Llandrindod, Powys - ffôn (09824) 362 neu 287

# MAES AWYR CYMRU A'R CYNLLLUNIAU RHYFEL

Mae Maes Awyr Cymru, Caerdydd, yn mynd i gael ei gynnwys ar restr Cynlluniau Amodol Cenedlaethol y Llywodraeth mewn adeg o ryfel. Ond fydd aelodau Awdurdod y Maes Awyr ddim yn cael gwybod y manylion.

Gwahoddwyd Cyfarwyddwr y Maes Awyr gan bennaeth yr adran Cynllunio Amddiffyn i fod yn aelod o bwyllgor cyswllt. Bydd y pwyllgor hefyd yn cynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn a 'Strike Command' y Llu Awyr. Byddai'r pwyllgor yna yn delio gyda 'pob agwedd o gynllunio gogyfer a'r defnydd o adnoddau ledfan sifil mewn cyfnod o argyfwng rhyngwladol'. Cadarnhawyd na chai Mr. Cran, y cyfarwyddwr, ddim dadlennu unrhyw wybodaeth ynglyn a chynlluniau cyfrinachol i neb ar wahan i'r rhai roedd hi'n 'ofynol iddyn nhw gael gwybod'. Ystyr hynny mewn gwirionedd yw swyddogion sy' wedi arwyddo'r Ddeddf Gyfrinachau Swyddogol ac nid aelodau o bwyllgorau Awdurdodau Lleol.

Awgrymodd y Cynghorydd Chris Franks mewn cyfarfod o Gyngor Sir De Morgannwg, y golygai hynny na fyddai unrhyw wybodaeth o bwys ar gael i aelodau o Awdurdod y Maes Awyr. Roedd y Cyngor wedi cael gwybod y byddai'r Maes Awyr yn rhan o senario'r paratoi at ryfel yn y cynllun anodol, ond chafon nhw ddim mwy o wybodaeth.

Mae CND Cymru yn credu y byddai'r Maes Awyr yn chwarae rhan allweddol yn gysylltiedig a chytundeb Ffyrdd o Gyfathrebu yr UDA - 'US Lines of Communications Agreement'. Dan y cynllun hwnnw gallai hyd at 30,000 o filwyr America gael eu hedfan yma a chael hawliau arbennig mewn cyfnod o argyfwng - hawliau a fyddai'n cynnwys rheoli'r boblogaeth sifil.

Fe ellid hefyd ail-gyfeirio awyrennau eraill - yn cynnwys awyrennau rhyfel - i lanio yno.

Fe fydd 'na gwestiynnau Seneddol yn cael eu gofyn ynglyn a'r pwnc yma.

Tony Simpson

**GWNEWCH GYMWYNAS Y NADOLIG YMA DRWY LENWI FFURFLEN AELODAETH DROS EICH FFRINDIAU**

Enw ........................................ (Llythrennau bras)

Cyfeiriad ........................................

........................................

Sir ........................ Côd Post ........................ (Pwysig)

AELODAETH

Oedolyn £9. Dau berson yn yr un cyfeiriad £12. Myfyriwr £3.
Heb waith a phensiynydd £2. Ieuenctid CND (21 neu iau) £1.

Dymunaf roi rhodd. Amgaeaf £............ Aelodaeth. £............ Rhodd.

Gwneier sieciau'n daladwy i : CND Cymru a danfoner i
CND Cymru, 2 Plasturton Avenue, Pontcanna, Caerdydd CF1 9HH.

CND CYMRU

# Blwyddyn Ryngwladol Heddwch 1986

**Gan gydnabod pwysigrwydd siarad a chyfarfod a phobl ynghyd a chydweithio a chenhedloedd eraill, danfonodd CND Cymru tri cynrychiolydd i Ewrop yn ystod mis Hydref.**

## BWYLLGOR RYNGWLADOL CND PRYDAIN TAITH I WERINIAETH DDEMOCRATAIDD YR ALMAEN

Dychwelodd Olwen Davies, ein cynrychiolydd ar bwyllgor ryngwladol CND Prydain, yn ddiweddar o daith i Weriniaeth Ddemocrataidd yr Almaen ple roedd yn aelod o ddirprwyaeth Gymreig a gafodd wahoddiad gan Gyngrair Cyfeillion Ryngwladol y G.D.A.

Yn ogystal a chael cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau ar faterion cyfoes yn berthnasol i'r Polisi Cartref a Thramor, dangoswyd, drwy ymweliadau a ysgolion, theatrau, amgeafeydd sawl agwedd o fywyd diwillianol a chymdeithasol y G.D.A.

Roedd gan Olwen ddiddordeb arbennig mewn ymweliad a Banizen, yn Sir Dresden - sydd yn ganolfan i'r boblogaeth a diwylliant Sorb, pobl o ddisgynyddiaeth Slav gyda'u hiaeth a diwilliant eu hunain. Wrth fynd i mewn i ysgol feithrin yno, i weld arddangosfa o bosteri heddwch, cafodd ei chroesawu gyda'r geiriau 'Keine Euroshima' (Dim Ewroshima).

Roedd blwyddyn ryngwladol heddwch yn cael ei chydnabod drwy y G.D.A. a Diwrnod Heddwch y Byd yn cael ei ddathlu gan blant yn arlunio ac ysgrifennu traethodau ar heddwch mewn ysgolion Yn y gorsafoedd tan ddear ym Merlin mae yna arddangosfa sefydlog o bosteri heddwch.

Ysgrifenna Olwen am ei thaith - "Rhoddwyd croeso cynnes a thwym galon in ni . . . ni fuom o dan oruchwyliaeth craff, fel yw'r 'myth' poblogaidd, ac roedd y bobl yn agored ac yn glen, ac roedd ganddynt agwedd gadernhaol tuag at y dyfodol. Y thema cyffredinol a ddaeth allan or trafodaeth oedd awydd diffuant na fyddai mwy o ryfeloedd yn dechrau yn yr Almaen, ac fe gyfnewidason syniadau sut, ynghyd, y gallem wneud cyfraniad tuag at ddatblygu a chadw heddwch. Mae'n rhaid i ni barhau i ymweld a gwneud ffrindiau gyda phobl o wahanol diwyllianau a strwythuriad gwleidyddol. Pobl i bobl - yn ceisio partio'r gageidor a deall y gwahaniaethau. Roedd y daith yn hynod o ddiddorol a phleserus".

Rhoddodd Olwen llawer o fathodynau Cymru Ddi-Niwcliar a Datganiadau Heddwch, a derbynwyd hwy gyda brwdfydedd Mae'r cysylltiadau wedi eu gwneud, mae rhaid adeiladu arnynt nawr. Os byddai unrhywun yn hoffi gwneud cysylltiad a phobl yn y G.D.A. . neu fudiadau yr gweithio dros heddwch mewn gwledydd eraill o amgylch y byd, yna ysgrifennwch am fwy o wybodaeth i Olwen Davies, 34 Brynystwyth, Penparciau, Aberystwyth, Dyfed.

## CYNGRES HEDDWCH

**Cyrraedd Copenhagen a phawb yn wahanol, Gweithgaredd gwahanol, cefndir gwahanol, syniadaeth gwahanol, gwleidyddiaeth gwahanol.**

**'Roeddem i gyd yn ymgyrchwyr gwrth niwcliar ac yn bleidiol i hawliau'r unigolyn. 'Roeddem i gyd yn ceisio heddwch a chyfiawnder. Nid oeddem yn cytuno bob amser. Ond buom yn siared, datblygodd y siarad yn ddeialog a'r ddeialog yn ymddiriedolaeth.**

**Rhaid i ni ddysgu ymateb yn oddefgar i'n gilydd a hefyd gydweithredu a'n gilydd.**

**Yn y gorllewin rhaid rhoi blaenoriaeth i'n hymgyrch yn erbyn SDI ac o blaid gwahardd arbrofi niwcliar. Rhaid ymroi i heddwch. Rhaid cenhadu ar stepan drws, ac felly rhaid troedio'r palmentydd yn 1987. Cnocio drysau, siarad gyda'r bobl. Egluro'r polisiau di-niwcliar, egluro peryglau arfau a phwer niwcliar. Gwahodd pobl i ymuno a CND.**

**Rhaid ymroi i ddeialog, ymddioriedolaeth a heddwch. Gwnawn 1987 yn flwyddyn heddwch. Dyna neges Copenhagen. Gwnawn bob blwyddyn yn flwyddyn heddwch.**

**Rhodri Glyn Thomas**

## BLWYDDYN HEDDWCH RHWNG–GENEDLAETHOL

Taith gwr lleol i gynhadledd ddi-niwcliar yn yr Eidal.

Cynrychiolodd Tony Simpson, CND Penybont-ar-Ogŵr, CND Cymru yn y Gynhadledd Rhwng- genedlaethol o Awdurdodau Rhandiroedd Di-Niwcliar ym Mherugia, yr Eidal. 'Roedd 172 o gynrychiolwyr lleol o 16 o wledydd yno. Daethant o Ewrob, U.D.A. . Canada, Awstralia, Seland Newydd a Japan. 'Roedd amryw sylwedyddion yno hefyd - o'r cyfundrefau Heddwch, 'Greenpeace', Tseina a Rwsia. Addurnwyd tref Perugia â baneri heddwch a cholomenod tra ffilmiau cwmniau teledu'r Eidal y cwbl mewn 4 iaith.

Dygodd Tony neges i'r Gynhadledd yn mynegi cefnogaeth oddi wrth Fforwm Rhandir Di-Niwcliar Cymru Gyfan (a gyfansoddir allan o bob awdurdod lleol yng Nghymru) a darllenwyd y cyfryw yn y Gynhadledd. Cyfrannodd tuag at weithgor ar faterion niwcliar yn hannu o ffynonellau awdurdodau lleol a disgrifiodd y 'Datganiadau'r Rhandiroedd Di-Niwcliar' gan siroedd a rhanbarthau Cymru ers 1982.

Galluogar Gynhadledd iddo gyfarfod â, a chlywed safbwyntiau amryw o siaradwyr dinesig fel Maer Robert Reid o Three Mile Island (U.D.A.), a Maer Fujisawa, dinas yn Japan, lle mae dros 800 o randiroedd di-niwcliar. Cyfarfyddodd hefyd ag amryw trefnyddion mudiadau heddwch megis Albert Donnay o America Ddi-Niwcliar, a Larry Ross, trefnydd Seland Newydd ddi-Niwcliar, sydd â pholisiau a dderbyniwyd bellach gan ei llywodraeth. 'Roedd pawb yn mynegi diddordeb mawr yng Nghymru ac eisiau dod i fwy o gysylltiad.

Clywodd y Gynhadledd fod mwy na 3,500 o drefi ac awdurdodau di-niwcliar yn y byd ac fe gyflwynwyd Cytundebau Di-Niwcliar perthnasol i'r Pacific, Lladin-America ac Antartica. Yn yr Amerig, gwneuthpwyd 46 o'r 100 RDN yn ddi-niwcliar gan refferendwm oedd â grym deddfiniaeth. Gellir gorfodi diwydiannau arfau-niwcliar i droi at gynhyrchu nwyddau heddychlon neu adael y dinasoedd, a gellir gorfodi'r olaf i roi arwyddion di-niwcliar i fyny fel y gwnaethpwyd yn Chicago. Mae Seland Newydd yn mynd i gyflwyno mesur sy'n amesu at wahodd gwneud, ystorio a chaniatau mewnforio arfau niwcliar, tra mynegodd Dwyrain yr Almaen yn ddiweddar y buasau'n arwyddo cyntundeb â Gorllewin yr Almaen a wnai 100 milltir yn ddi-niwcliar. Yn yr Iseldiroedd, bydd rhai cynghorau di-niwcliar sicrhau hyfforddiant am Heddwch, tra mae'r 105 tre ddi-niwcliar yn Awstralia ag arwyddion 'Nuclear Free Zone' are eu ffiniau.

MAE'R MUDIAD DI–NIWCLIAR YN LLAWER CRYFACH NA MAE LLAWER YN EI SYLWEDDOLI.

Ar gais y ddirprwyath o Japan anfonodd y Gynhadledd neges at yr Arlywyddion Reagan a Gorbachov yn gofyn am gynnal cyfarfod Brig yn dinas Hiroshima.

# DILEMA'R MEDDYGON?

Rywle yng nghrombil y Swyddfa Gartref, yn ol cred llawer o bobl, y mae ffeil sy'n dynodi pa gategoriau o bobl - athrawon, trydanwyr, gwleidyddion, heddweision ac yn y blaen - fydd yn cael triniaeth i'w hanafiadau ar ôl rhyfel niwcliar, a pha rai fydd yn cael eu troi i ffwrdd a'u gadael i farw. Nid yw'r ddogfen yn bodoli'n swyddogol. Mae llawer o feddygion sydd â'r gwaith o drefnu cynlluniau amddiffyn sifil yr awdurdod iechyd yn argyhoeddedig o'i bodolaeth. Mae'n nhw'n credu y dylen nhw, a'r cyhoedd hefyd, gael gwybod amdani.

Mae Dr. John Dawson, pennaeth adran wyddoniaeth y 'British Medical Association' yn un or nifer fawr o feddygon a fu'n mynychu'r cwrs cynllunio rhyfel yng ngholeg amddiffyn sifil y Swyddfa Gartre yn Easingwold. "Mae'r llywodraeth wedi dweud wrthym nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i ddethol clwyfedigion ar gyfer triniaeth. Dyw hynny ddim yn gwneud synnwyr. Fydd na ddim digon o adnoddau ar gyfer pawb. Dywed y llywodraeth y dylid dilyn egwyddorion moesol arferol.

Mae meddygon fel arfer yn anelu at wneud eu gorau dros gleifion unigol waeth beth fo'r gost. Ar ôl ymosodiad niwcliar mae'r darlun yn newid. Rhaid i chi ystyried parhâd y gymdeithas, felly mae'n rhaid i helpu'r gymdeithas. Nid yw'r cynlluniau amddiffyn sifil diweddara yn dweud dim am hynny.

Mae'r BMA yn mynd i ymateb trwy sefydlu gweithgor ar yr un llinellau â'r tîm a baratôdd adroddiad ar "effeithiau meddygol rhyfel niwcliar" gyda'r bwriad o gyhoeddi adroddiad y flwyddyn nesa. Mae'n nhw'n amcangyfri y gallai traeon i hanner y boblogaeth, tua 27 miliwn ar y mwyaf, oroesi'r ymosodiad, a ddisgrifir yn ymarfer amddiffyn sifil y Swyddfa Gartre, 'Square Leg'. Bydd miliynau o'r bobl yma wedi'u hanafu. Ni fydd y Gwasanaeth Iechyd yn bod mwyach. Bydd prinder dybryd o waed, anaesthetig, antibiotig a rhwymynnau. Bydd adnoddau mor brin nes yn y diwedd, chwedl Dr. Dawson, bydd rhaid rhoi'r gallu i rywun i benderfynu sut i'w dosbarthu. Dan yr amgylchiadau hynny, dylid gwrthod triniaeth i'r canlynol:

* Person nad oes modd ei adfer i gyflwr o iechyd llawn lle na bydd yn gorfod dibynnu ar sgiliau ac adnoddau meddygol.
* Person sy'n ddibynnol ar feddyginiaeth trwy'r amser - er enghraifft - pobl sy'n diodde o glefyd siwgr ac sydd angen insiwlin.
* Unrhyw oedolyn na fedr ofalu amdano'i hun a chyfrannu at barhâd y gymdeithas.

Yn nhermau sgiliau penodol, bydd cynhyrchwyr ffrwythau a llysiau yn ddefnyddiol ac felly'n haeddu triniaeth. Bydd angen peirianwyr i gynllunio prosiectau ar gyfer goroesi ac ail adeiladu. Bydd nyrsys yn bwysicach na meddygon oherwydd bod ganddynt fwy o sgiliau cymorth cyntaf. Bydd angen llyfgellwyr i hel y wybodaeth angenrheidiol i ddechrau ail adeiladu.

Ni fydd plant o anghenrhaid yn gymwys i gael triniaeth.

"Os nad ydym yn ceisio achub y plant yna nid oes gennym ddyfodol, ond os ydym yn rhoi gormod o bwyslais ar achub y bobl yma sydd yn ddibynnol ac heb sgiliau - achos dyma beth ydyn nhw - yna mae peryg i ni golli galluoedd corfforol a sgiliau y mae'u hangen yn ddirfawr", medd Dr. Dawson.

Rhoddir y flaenoriaeth i barhad y grŵp. Bydd pob dim arall yn ail i hynny".

Mae Dr. Dawson yn ei gwneud hi'n eglur fod cynigion hollol ymarferol o'r math yma yn atgas iawn ganddo. Gwel adroddiad y BMA fel dull o roi gwybod i bobl am ganlyniadau ymosodiad o'r fath a gwrthod awgrym y llywodraeth y bydd pob dim yn iawn yn ystod noson hir dywyll y 'gaeaf niwcliar'.

Os, ar ol cael y wybodaeth yna, y bydd pobl yn gweld bod y canlyniadau'n annerbyniol ac yn gweithredu yn ôl hynny, boed felly".

Ers i'r wybodaeth hon gyrraedd y wasg, mae ffynonellau o'r ty fewn i'r llywodraeth wedi parhau i wadu y byddai meddygon a gweithwyr meddygol eraill yn cael cyfarwyddiadau ynglyn a phwy i drin. Yr hyn yr ydym ni'n ei ofyn ydy, pwy fyddai'n gyfrifol am roi pobl 'allan o'u poen'?

# GWATSIWCH Y GWERTHWR AMDDIFFYN SIFIL
## meddai Gorllewin Morgannwg

Mae grwpiau heddwch Gorllewin Morgannwg yn ymdrechu'n galed i geisio atal y Cyngor rhag derbyn argymelliad eu Pwyllgor Amddiffyn y Cyhoedd y dylent lunio cynlluniau amddiffyn sifil ac ail-wampio byncar West Cross. Tybir mai'r ffaith fod y llywodraeth yn 'hael' iawn yn fodlon rhoi cymorth i dalu am staff sy'n gyfrifol am yr argymelliad hwn, a bod y cymorth hwnnw i godi o 75% i 100% yn y dyfodol agos.

Yn ol Tony Simpson ar ran CND Cymru mae'r ymgynghorydd amddiffyn sifil Mr. Eric Alley, ar ol methu perswadio'r cynghorau Cymreig ynglyn a 'manteision' amddiffyn sifil, bellach yn prynnu eu cefnogaeth ac yn gweithredu fel 'trafeiliwr' cynlluniadau rhyfel. Yn 1983 dywedodd Mr. Alley, "efallai bod peth mantais mewn 'gwerthu' amddiffyn sifil i awdurdodau cyndyn. Defnyddia'r rhan fwyaf ohonom y dull 'pob argyfwng' ond byddai'n ddiddorol gweld a fedrai rhywun 'werthu' hyn ar y sail anghenion rhyfel yn unig".

Mae'n anodd credu y gallai awdurdod lleol sydd yn nwylo Llafur gael ei brynnu fel hyn, yn enwedig o ystyried y byddai hyn yn tanseilio ei bolisi Rhanbarth Ddi-Niwcliar yn llwyr, (gan fod hwnnw'n awgrymu nad yw'n bosib cynnig amddiffyniad mewn rhyfel niwcliar). Rydym yn ymwybodol o'r pwyso sydd ar yr holl Siroedd Cymreig, ond yr hyn i'w wneud yw uno ynghyd a hyrwyddo astudiaeth gynllunio genedlaethol fel yr argymellir gan Fforwm Cymru. Nid yw'r llywodraeth wedi llusgo'r awdurdod gerbron llys ac y mae'n annhebyg o wneud hynny ar hyn o bryd oherwydd eu bod yn gorfod cytuno fod astudiaeth gynllunio yn gam rhesymol i'w gymeryd.

Ynglyn a'r staff y ceir y cymorthdal i'w cyflogi, datganodd y llywodraeth y disgwylir gweld eu defnyddio hwy mewn gweithgareddau cynlluniau rhyfel. Ai hyn a ddymunir gan bobl Gorllewin Morgannwg neu weddill siroedd Cymru? Mae'n bwysig ein bod yn gwybod beth sy'n digwydd yn ein ardaloedd ein hunain a sut y mae ein cynghorau'n ymdopi. Yn bendant mae pob cynghorydd sy'n bleidiol i'n hachos angen ein cefnogaeth.

Ymhlith datblygiadau eraill a fedrai effeithio ar lawer o unigolion yn ogystal a phob awdurdod lleol yng Nghymru y mae'r canlynol:

Bwriedir cychwyn ymgyrch i recriwtio Gwirfoddolwyr ar gyfer amddiffyn sifil.

Daw'r Ddeddf Amddiffyn Sifil mewn cyfnod o Heddwch i rym.

Mae'r Ombudsman i ymchwilio i gynlluniau byncar Cyngor Dosbarth Caerfyrddin.

Disgwylir i'r Awdurdodau Di-Niwcliar drafod oblygiadau cynlluniau argyfwng ar gyfer damweiniau mewn atomfeydd.

Mae Fforwm Cymru Ddi-Niwcliar yn awr yn trafod ynni-niwcliar ac wedi cyfethol WANA a SANA, yn ogystal ag CND Cymru, fel 'sylwebwyr cyfrangol'.

Gellir defnyddio'r Ddeddf Llywodraeth leol Hawl i Wybodaeth, 1985 ar gyfer materion niwcliar, amddiffyn sifil, a.y.y.b.

Mewn cyfarfod o Fforwm Cymru Ddi-Niwcliar ar Dachwedd 21 cytunodd i fabwysiadu arwyddion ffyrdd o'r un patrwm ar gyfer pob man yng Nghymru sy'n ddatgan ei bod nhw'n ardal Ddi-Niwcliar. Seilwyd y cynllun ar sumbol y glomen heddwch ac fe fyddwn nhw ar gael ac yn cael eu defnyddio yn helaeth gobeithio yn ystod wythnos Ddi-Niwcliar Cymru!